

NOSC 2026 Rhif 95

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Maenan, Bwrdeistref Sirol Conwy)
(Gwahardd Cerbydau Mawr Dros
Dro) 2026

Gwnaed 22 Mai 2026

Yn dod i rym 1 Mehefin 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Maenan, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mehefin 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 1 Mehefin 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

NWSI 2026 No. 95

ROAD TRAFFIC

The A470 Trunk Road (Maenan,
Conwy County Borough)
(Temporary Prohibition of Large
Vehicles) Order 2026

Made 22 May 2026

Coming into force 1 June 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Maenan, Conwy County Borough) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2026 and this Order comes into force on 1 June 2026.

Interpretation

2. In this Order—

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A470 Maentwrog to East of Conwy trunk road;

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Maentwrog i fan i’r dwyrain o Gonwy.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy’n 3.0, 3.2 neu 3.65 metr o led neu fwy ar y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r fynedfa i’r Maenan Abbey Hotel hyd at ei chyffordd â’r fynedfa i safle gwersylla Erw Las ym Maenan, Bwrdeistref Sirol Conwy.

Cymhwysio

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Mai 2026

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 07:00 hours on 1 June 2026 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle of or over 3.0, 3.2 or 3.65 metres wide on the length of the trunk road that extends from its junction with the entrance to the Maenan Abbey Hotel to its junction with the entrance to Erw Las campsite at Maenan, Conwy County Borough.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only at such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated

22 May 2026

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government